**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 22 MAWRTH 2016 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mrs. Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. David Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mrs. Caroline Roe (Cynorthwyydd Swyddfa).

**Amser Dechrau:** 9:30
**Amser Gorffen:** 11:45

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau ar ran Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes) nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai Mrs Gill Lewis yn cyfarfod â'r Comisiwn i drafod gwaith Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, y mae'n Gadeirydd arno, er mwyn trafod y Comisiwn a ffyrdd y gall y ddau Gomisiwn helpu ei gilydd yn y dyfodol.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2016

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd yn amodol ar rai fân anghysonderau gramadegol.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Mawrth 2016 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 13) Safonau'r Gymraeg – Disgwyl cyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg maes o law. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 15) Gwobr Iechyd Gweithle Bach – Paratoi ar gyfer cais yn y flwyddyn ariannol nesaf. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 16) Ardal Gwella Busnes (AGB) Caerdydd – Dywedodd ymateb gan y tîm na fyddai'r Comisiwn yn cael ei eithrio o'r broses; gan ddweud bod sefydliadau cyhoeddus eraill yn gysylltiedig hefyd. Parhaodd y Comisiwn o'r farn na allai fod yn gysylltiedig oherwydd y cyfyngiadau yn Neddf 2013. Awgrymwyd bod y mater yn cael ei drafod gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru a hyrwyddwyr AGB. Pe bai'r sefyllfa'n parhau yn anfoddhaol, dylid

gofyn am gyngor cyfreithiol ynglŷn â'i sefyllfa, pe bai angen. **Dirprwy Brif Weithredwr**

**5. Polisi Rhoddion a Lletygarwch**

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 03 Mawrth 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

5.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a phenderfynodd gwneud y newidiadau canlynol;

- 1.2 – Ail-eirio i'r perwyl '*Dylai aelodau a staff ystyried hefyd p'un ai i ddatgan rhoddion a lletygarwch a gynigir ar fusnes swyddogol y Comisiwn, a thu hwnt i fusnes swyddogol y Comisiwn; gellid ei weld fel rhywbeth niweidiol i waith y Comisiwn. Os oes unrhyw amheuaeth, gofynnwch am gyngor gan y Prif Weithredwr."*
- 1.4 – Ychwanegu '*Aelodau'* yn ychwanegol at Staff.
- 4.1 – Ychwanegu '*Yn amodol ar 1.2*' at y diwedd.
- Ffurflen – Newid '*Achos busnes byr dros dderbyn*' i '*Rheswm dros dderbyn'*

5.3. **Derbyniwyd** y polisi gan y Comisiwn, yn amodol ar y diwygiadau canlynol.

**6. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau**

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Mawrth 2016 gan y Rheolwr Cyllid a **Nodwyd** y newidiadau canlynol:

- Mae Risg newydd sy'n dod i'r amlwg - CR12 – i'w chyflwyno mewn perthynas ag oedi o ran creu Gorchmynion Cymunedol o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch bodolaeth rheoliadau angenrheidiol ar gyfer galluogi'r Comisiwn i wneud gorchmynion.
  **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr.**

**7. Adroddiad ar y Gyllideb**

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Mawrth 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Amlinellodd y Rheolwr Cyllid newidiadau mewn dyraniadau cyllideb ar ôl ildio cyllid yn ôl i Lywodraeth Cymru a derbyn cyllid ychwanegol Comisiwn Ffiniau i Gymru gan Swyddfa'r Cabinet. Nododd y Comisiwn y tanwariant a amcangyfrifir yng Nghymorth Grant 2015-16 ar gyfer diwedd y flwyddyn a oedd wedi cynyddu am fod cyngor cyfreithiol ar gyfer ffiniau tua'r môr wedi costio dipyn yn llai na'r amcangyfrif, ac ystyriwyd y dylai mwy o gyllid gael ei ildio'n ôl i'r isadran noddi pe bai modd. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn cysylltu â'r isadran noddi a holi p'un a oedd dal yn bosibl ildio arian yn weddill yn ôl. **Gweithredu: Rheolwr Cyllid.**

7.3. **Nodwyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn.

**8. Gwneud Gorchmynion Arolygon Cymunedol**

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Mawrth 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn ymwneud â'r broses newydd Gwneud Gorchmynion Cymunedol.

8.2. **Derbyniwyd** y polisi gan y Comisiwn; gan ychwanegu risg newydd at y Gofrestr Risgiau, fel y crybwyllwyd uchod.

**9. Datganiad Llywodraethu 2015-16**

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Mawrth 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. **Nodwyd** yr adroddiad ac roedd yn amodol ar y diwygiadau canlynol;

- 1 – Cyfnewid y ddwy frawddeg gyntaf.
- 4 – Cynnwys ymateb y Comisiwn i'r ymgynghoriad i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 5.6 – Ail-eirio'r paragraff
- 13 – Cynnwys mwy am berfformiad y busnes yn gyffredinol, nid y gwaith a wnaed ar arolygon yn unig.
- 15 – Gwella'r frawddeg olaf ond un mewn perthynas â'r Comisiwn yn defnyddio systemau TG Llywodraeth Cymru.
- Cynnwys adran yn ymwneud â gwaith Is-Bwyllgor y Gweithlu.

9.3. **Cytunwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn yn amodol ar y diwygiadau uchod.

**10. Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 24 Chwefror 2016**

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Mawrth 2016 gan y Rheolwyr Cyllid, i hysbysu aelodau am ganlyniad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2016.

10.2. Penderfynwyd cywiro adran 5.1 o'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg trwy gynnwys y gair 'i / to' cyn y gair '*cyfeirio / refer*' yn y frawddeg olaf.

10.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a **Chytunodd** y cofnodion yn amodol ar y diwygiad uchod.

**11. Llythyr Cylch Gwaith 2016-17**

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Mawrth 2016 gan y Prif Weithredwr a oedd yn ymwneud â'r llythyr cylch gwaith a anfonwyd at y Comisiwn gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar 1 Mawrth 2016.

11.2. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar i'r Comisiwn ar amcanion y Comisiwn o fewn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

11.3. **Nodwyd** yr adroddiad**.**

**12. Cynllun Gweithredol**

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Mawrth 2016 gan y Prif Weithredwr yn ymwneud â Chynllun Gweithredol drafft CFfDLC a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

12.2. Penderfynodd y Comisiwn wneud y diwygiadau canlynol.

- 4.1 – Rhoi'r gair '*Cadair / Chair'* yn lle '*Cadeirydd / Chairman'*.
- 4.1 – Cywiro nifer yr aelodau eraill o '*un'* i '*dri*'.
- 5.1 – Dileu'r gair '*are*' o'r frawddeg olaf.

12.3. Cytunwyd yr adroddiad gan y Comisiwn yn amodol ar y diwygiadau uchod.
**Gweithredu: Prif Weithredwr**

## 13. Archwiliad y Ddraig Werdd

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Mawrth 2016 gan y Cynorthwyydd Swyddfa ynglŷn ag adroddiad archwilio'r Ddraig Werdd 2014/15.

13.2. **Penderfynwyd** diwygio cwestiwn 3 drwy roi 'Cofrestr Gyfreithiol Amgylcheddol' yn lle 'Cofrestr Gyfreithiol' er mwyn darparu eglurder.

13.3. **Nodwyd** yr Adroddiad.

## 14. Adroddiad Briffio ar Safonau'r Gymraeg

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 8 Mawrth 2016 yn rhoi diweddariad ynglŷn ag adroddiad Safonau'r Gymraeg.

14.2. **Nodwyd** yr Adroddiad a bydd yn cael ei ystyried eto pan dderbynnir yr hysbysiad cydymffurfio drafft.
**Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes**

## 15. Polisi Iechyd a Diogelwch

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Mawrth 2016 gan y Prif Weithredwr ar yr adolygiad o'r Datganiad Iechyd, Diogelwch a Lles a chreu Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles.

15.2. Penderfynodd y Comisiwn wneud y diwygiadau canlynol i'r Datganiad Polisi.

- Pwynt bwled 4 – cynnwys 'staff *a'r Comisiwn*' yng ngeiriad y paragraff hwn.

15.3. Penderfynodd y Comisiwn wneud y diwygiadau canlynol i'r Polisi.

- Rhan ychwanegol i sôn am y gwaith adeiladu dros dro sy'n cael ei wneud yn adeilad y swyddfa ac o'i amgylch, a pha fesurau sydd ar waith mewn perthynas ag iechyd a diogelwch y Comisiwn a'i staff yn ystod y cyfnod adnewyddu hwn.
- Rhan ychwanegol i gynnwys manylion ble i leoli/cadw pecynnau Cymorth Cyntaf yn y swyddfa.

15.4. **Cytunwyd** yr Adroddiad yn amodol ar y diwygiadau uchod, a gofynnodd y

Comisiwn am i gopi caled o'r polisi hwn fod ar gael ar Hysbysfwrdd y Staff.

## 16. Cynllunio Arolygon Cychwynnol

16.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Mawrth 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar gynllunio Arolygon Cychwynnol.

16.2. Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr ddiweddariad ar y senarios posibl ar gyfer rhaglenni arolygon a allai ddod yn weithredol pan dderbynnir cyfarwyddyd, ac ystyriodd y Comisiwn y graddfeydd amser, cyllideb ac adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob senario.

16.3. **Nodwyd** yr Adroddiad.

## 17. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

17.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Mawrth 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar Gynnydd Arolygon cyfredol.

17.2. Adroddwyd bod Arolwg Cymunedol **Caerdydd** wedi'i gyhoeddi ar 26 Chwefror 2016. Roedd Adroddiad Terfynol Arolwg Cymunedol **Castell-nedd Port Talbot** wrthi'n cael ei baratoi i'w gyhoeddi ar 31 Mawrth. Trafodwyd Arolwg Cymunedol **Sir Gaerfyrddin** yn gynharach yn y cyfarfod, gan gyfeirio at Eitem 8 ar yr Agenda; ac roedd y Comisiwn yn dal i ddisgwyl canlyniadau arolwg cymunedol **Sir Ddinbych** o Brestatyn.

17.3. **Nodwyd** yr Adroddiad.

## 18. Calendr Digwyddiadau

18.1. **Nodwyd** y Calendr.

## 19. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

19.1. Ni thrafodwyd Unrhyw Fusnes Arall.

**Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Croesawyd Mrs Gill Lewis, Cadeirydd y Comisiwn Staff, gan y Cadeirydd. Trafodwyd gwaith y ddau Gomisiwn yng nghyd-destun newidiadau posibl yn y sector cyhoeddus, a nodwyd meysydd diddordeb cyffredin. Cytunwyd i gyfarfod eto ar ôl i gylchoedd gwaith y dyfodol gael eu hegluro.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 26 Ebrill 2016**